S4C /

# Rheolwr Rhaglen

## (Nodwch: Rheoli Prosiectau nid greadigol)

### Pam ymuno ag S4C?

Yn S4C, rydyn ni'n angerddol am greu amgylchedd gwaith positif, egnïol a chynhwysol sy'n adlewyrchu ein gwerthoedd craidd:

Ar Dy Orau, Balch o S4C, Dathlu Pawb, Cer Amdani.

Mae S4C yn chwilio am Rheolwr Rhaglen eithriadol i arwain y gwaith o gyflawni prosiectau mawr, effaith uchel sy'n llunio dyfodol darlledu yng Nghymru. Mae S4C yn defnyddio system rheoli darlledu (BSM) sydd wedi'i hysgrifennu yn Delphi, ac wedi'i haddasu i ddiwallu gofynion penodol S4C. Yn ogystal â'r platfform craidd, mae S4C hefyd wedi datblygu dau gynnyrch ychwanegol. Bydd y rôl hon yn gyfrifol am sicrhau integreiddio llyfn y feddalwedd newydd yn yr amgylchedd darlledu presennol a ddarperir gan y BBC yn Sgwâr Canolog, Caerdydd. Bydd y sawl llwyddiannus yn goruchwylio cyflwyno'r system newydd ar amser ac o fewn y gyllideb.

Mae hwn yn gyfle prin i chwarae rhan ganolog wrth sbarduno arloesedd, trawsnewid busnes, a chyflwyno prosiectau meddalwedd gwerth miliynau o bunnoedd sy'n cefnogi gweledigaeth strategol S4C yn uniongyrchol.

Mae S4C yn chwilio am arweinydd medrus sydd â phrofiad ymarferol helaeth yn yr amgylchedd darlledu, a hanes cryf o gyflawni prosiectau meddalwedd mawr gwerth miliynau o bunnoedd ar amser ac yn ôl y gyllideb.

Byddwch angen profiad o ddelio â nifer o randdeiliaid yn fewnol ac yn allanol a chyflawni gofynion rhanddeiliaid yn y cyflawniadau meddalwedd.
Fel Rheolwr Rhaglen, bydd S4C yn gofyn i chi gael profiad helaeth o newid busnes a rheoli cyllid prosiectau mawr. Bydd gofyn i chi ddyrannu'r adnoddau sydd ar gael yn briodol ac yn effeithiol.

Mae hon yn swydd arwain gyffrous i feddyliwr strategol sy'n cael ei sbarduno gan ganlyniadau, ac sy'n angerddol am gyflawni newid sy'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol yn y diwydiant darlledu.

### Trosolwg o'r Swydd

Mae S4C yn defnyddio meddalwedd rheoli gorsafoedd o'r enw BSM, mae'r feddalwedd wedi'i hysgrifennu yn Delphi ac wedi cael ei haddasu i deilwra'r feddalwedd ar gyfer gofynion penodol S4C, yn ogystal â'r feddalwedd craidd mae dau gynnyrch arall sydd wedi'u datblygu gan S4C:

Cwmwl: Yn cael ei ddefnyddio i gyflwyno syniadau rhaglenni i S4C a dilyn cynigion llwyddiannus i'r cam contract.

PAC (Programme as Completed) - mae hwn yn cael ei ddefnyddio i gasglu data gan gwmnïau cynhyrchu ar gyfer gwybodaeth sy'n ymwneud â'r rhaglen, er enghraifft casglu data ar gerddoriaeth a ddefnyddir ar gyfer rhoi gwybod i PRS.

Mae S4C wedi penderfynu bod angen mwy o feddalwedd berchnogol i ddarparu'r swyddogaethau hyn er mwyn gwneud cefnogaeth yn fwy cadarn a pheidio â bod mor ddibynnol ar system bwrpasol.

hyderus o ran anabledd
CYFLOGWR

S4C /

Bydd y swydd yn gyfrifol am sicrhau integreiddio'r feddalwedd newydd yn yr amgylchedd darlledu presennol a ddarperir gan y BBC yn y ganolfan ddarlledu yn Sgwâr Canolog, Caerdydd, bydd angen cyflwyno'r feddalwedd newydd yn unol â'r gyllideb ac ar amser.

## Prif Ddyletswyddau

- Goruchwylio nifer o ffrydiau gwaith cysylltiedig, o fewn prosiect i ddisodli'r system Broadcast Station Management (BSM) y mae S4C yn ei defnyddio ar hyn o bryd.
- Sicrhau bod y feddalwedd newydd yn cyd-fynd â strategaeth S4C ac yn darparu'r manteision y bydd y system newydd yn eu darparu.
- Rheoli'r rhaglen gyffredinol, gan gynnwys ei chyllideb, ei hadnoddau, a'i risgiau, tra hefyd yn sicrhau cyfathrebu a chydweithrediad effeithiol ar draws timau ac i'r Uwch Dîm Arwain.
- Er mwyn mewnbynnu a sbarduno creu dogfen tendr disodli'r feddalwedd rheoli darlledu cyfredol.

## Cyfrifoldebau Allweddol

### Aliniad Strategol

- Sicrhau bod yr holl ffrydiau gwaith o fewn y prosiect yn cyd-fynd â nodau ac amcanion strategol sefydliad S4C.

### Cynllunio a Gweithredu

- Rhoi mewnbwn ar ddatblygu dogfen dendro ar gyfer disodli BSM.
- Datblygu a rheoli cynlluniau ffrwd waith, amserlenni a chyllidebau, a sicrhau bod prosiectau'n cael eu cyflawni ar amser ac o fewn y gyllideb.

### Rheoli Risg

- Nodi a lliniaru risgiau a materion posibl a allai effeithio ar lwyddiant y rhaglen.

### Rheoli Rhanddeiliaid

- Adeiladu a chynnal perthnasoedd cryf â rhanddeiliaid, gan gynnwys uwch reolwyr, timau prosiect, a phartneriaid allanol.

### Rheoli Adnoddau

- Dyrannu adnoddau'n effeithiol ar draws y rhaglen, gan sicrhau bod y bobl a'r offer cywir ar gael ar gyfer pob prosiect.

### Cyfathrebu

- Darparu diweddariadau rheolaidd ar gynnydd y rhaglen i randdeiliaid, gan gynnwys adrodd ar ddangosyddion perfformiad allweddol.

### Rheoli Newid

- Rheoli newidiadau i gwmpas, amserlen a chyllideb y rhaglen mewn modd rheoledig.

### Arweinyddiaeth Tîm

hyderus o ran anabledd
CYFLOGWR

- Darparu arweinyddiaeth ac arweiniad i dîm y rhaglen, meithrin amgylchedd cydweithredol a pherfformio i lefel uchel.

**Gwireddu Manteision**

- Sicrhau bod y rhaglen yn cyflawni'r manteision a'r canlyniadau arfaethedig i'r sefydliad.

**Newid Busnes**

- Rhoi adborth i unrhyw ofynion newid busnes y gallai'r Broadcast Station Management newydd fod ei angen i hwyluso unrhyw newidiadau mewn llifoedd gwaith.

**Byddwch hefyd yn:**

- Ymwybodol o strategaeth S4C, a sicrhau eich bod yn cymryd cyfrifoldeb personol i gydymffurfio â'n polisïau a gweithdrefnau yn ôl y gofyn, gan gynnwys gweithio o fewn canllawiau ar iechyd a diogelwch, amrywiaeth a chynhwysiant, gwarchod data, gweithdrefnau ariannol ac yn y blaen.
- Cyfrannu'n gadarnhaol at ddiwylliant a chyflawni strategaeth S4C.
- Cyfrannu at a chefnogi'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle.
- Gweithio gyda'ch rheolwr llinell a bod yn rhagweithiol wrth reoli a datblygu eich perfformiad eich hun.
- Sicrhau eich bod yn gweithio mewn ffordd gadarnhaol, gydweithredol, draws-sefydliadol sy'n datblygu gwasanaethau rhagorol i'n gwylwyr ar draws bob platfform ac yn sicrhau amgylchedd gwaith cadarnhaol, egnïol a chynhwysfawr lle mae pawb yn cael eu trin gyda pharch.

**Beth fyddwch chi'n ei gael?**

- Y cyfle i wneud gwahaniaeth gwirioneddol mewn sefydliad sy'n gwerthfawrogi pobl.
- Amgylchedd gweithio hyblyg o un o'n swyddfeydd yng Nghymru.
- Mae S4C yn ymrwymo i dwf personol ei gweithwyr, gan gynnig cyfleoedd hyfforddiant a datblygiad cynhwysfawr i wella sgiliau a hyrwyddo gyrfaoedd. Mae hyn yn cynnwys mynediad at gymwysterau, hyfforddiant mewnol, a rhaglenni datblygu proffesiynol parhaus.
- Mynediad at gyfleoedd unigryw yn y sector cyfryngau gan gynnwys presenoldeb mewn digwyddiadau, rhagolwg rhaglenni, trafodaethau panel a diweddariadau mewnol.
- Mae gan staff y cyfle unigryw i gyfrannu at hybu a chadw iaith a diwylliant Cymru drwy eu gwaith.
- Mae S4C yn cynnig Cynllun Pensiwn Personol Grŵp gyda chyfraniad o 10% gan S4C.
- 26 diwrnod o wyliau blynyddol.

**Manyleb Personol**

S4C /

| Priodoledd | Hanfodol | Ddymunol |
|---|---|---|
| **Cymwysterau** | | Prince2, Managing Successful Programmes (MSP) neu gymwysterau tebyg. |
| **Profiad** | Profiad ymarferol helaeth yn yr amgylchedd darlledu.<br>Profiad helaeth o gyflawni prosiectau meddalwedd mawr gwerth miliynau o bunnoedd ar amser ac ar gyllideb.<br><br>Profiad o ddelio â nifer o randdeiliaid yn fewnol ac yn allanol, a phrofiad o gyflawni gofynion rhanddeiliaid yn y cynnyrch sy'n cael ei ddarparu.<br><br>Profiad helaeth o newid busnes a rheoli cyllid prosiectau mawr.<br><br>Profiad o gyflwyno diweddariadau prosiect ar lefel bwrdd a lefel uwch ac mewn archwilio prosiectau. | |
| **Sgiliau a Gwybodaeth** | Sgiliau cyfathrebu rhagorol, ysgrifenedig a llafar.<br><br>Hyblygrwydd a'r gallu i reoli sawl prosiect ar yr un pryd.<br><br>Sgiliau rhyngbersonol cryf.<br><br>Sgiliau cynllunio rhagorol.<br><br>Sylw rhagorol i fanylion a chywirdeb.<br><br>Sgiliau trefnu rhagorol, gan gynnwys y gallu i flaenoriaethu llwythi gwaith amrywiol â therfynau amser sy’n cystadlu yn erbyn ei gilydd. | Sgiliau Cymraeg, (Mae cymorth ar gael i ddatblygu sgiliau Cymraeg). |
| **Nodweddion Personol** | Dealltwriaeth ac ymrwymiad i Strategaeth a pholisi Amrywiaeth a Chynhwysiant S4C.<br><br>Diddordeb mawr yn S4C/yn niwylliant Cymru.<br><br>Awyddus i ddysgu.<br><br>Datryswr problemau.<br><br>Lefel uchel o uniondeb personol, yn cael ei ddangos trwy ymddygiad.<br><br>Arddangos gwerthoedd ac ymddygiadau sy'n cyd-fynd â gwerthoedd S4C. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Parodrwydd i weithio'n hyblyg. | |

## Manylion Pellach

**Lleoliad:** Swyddfa S4C, Sgwâr Canolog, Caerdydd (o leiaf 2 ddiwrnod yn y swyddfa)

**Cyflog:** £85,000 y flwyddyn

**Cytundeb:** Contract 18 mis i ddechrau

**Cyfnod Prawf:** 6 mis

**Oriau Gwaith:** 35.75 awr yr wythnos

**Gwyliau:** Yn ychwanegol i'r gwyliau banc statudol, bydd gennych hawl i 26 diwrnod o wyliau â thâl y flwyddyn. (Sylwer y bydd y gwyliau blynyddol ar sail pro rata os yn gweithio rhan amser).

**Pensiwn:** Mae hawl gan staff cyflogedig ymuno â Chynllun Pensiwn Personol Grŵp yn ddarostyngedig i delerau unrhyw gynllun sydd mewn bodolaeth ac a ddiwygiwyd o dro i dro. Os byddwch yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Personol Grŵp, bydd S4C yn cyfrannu 10% o'ch cyflog sylfaenol i'r Cynllun. Bydd disgwyl i chi gyfrannu 5%.

**Teithio:** Bydd teithio achlysurol yn rhan o'r rôl, fel arfer yn y Deyrnas Unedig

## Ceisiadau

Dylid anfon ceisiadau erbyn **12.00 ar ddydd Llun 20 Hydref 2025** i Pobl@s4c.cymru neu Adran Pobl a Diwylliant, Canolfan S4C, Yr Egin, Caerfyrddin, SA31 3EQ.

**Dyddiad Cyfweliadau: Wythnos yn cychwyn 27 Hydref.**

Ni fydd CV yn cael eu derbyn.

Gellir cyflwyno ceisiadau yn Gymraeg. Ni fydd cais a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.

## Defnydd AI

Os ydych chi'n dewis defnyddio AI neu offer tebyg, gwnewch yn siŵr bod eich ymatebion yn fanwl gywir, yn onest ac yn adlewyrchu'ch profiad a'ch geiriau eich hun. Gall ceisiadau nad ydynt yn wreiddiol neu sydd wedi'u cynhyrchu gan AI gael eu gwrthod.

Yn ystod y cyfweliad, ni chaniateir defnyddio AI nac offer recordio, oni bai bod hynny wedi'i gytuno ymlaen llaw am resymau hygyrchedd. Gall unrhyw dystiolaeth o ddefnydd heb ganiatâd arwain at dynnu'ch cais yn ôl.

## Cyfle Cyfartal ac Amrywiaeth

S4C /

Nid yw S4C yn caniatáu gwahaniaethu ar sail rhyw, hil, lliw, anabledd, cefndir ethnig neu gefndir cymdeithasol-economaidd, oedran, statws teulu, statws priodasol neu bartneriaeth sifil, gweithwyr rhan amser neu amser llawn, crefydd, gwleidyddiaeth, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhyw, beichiogrwydd a mamolaeth, defnydd iaith (heblaw lle bo'r gallu i gyfathrebu yn Gymraeg yn hanfodol i'r swydd) neu unrhyw wahaniaeth amherthnasol arall, ac mae'n ymroi i ystyried amrywiaeth mewn ffordd gadarnhaol. Mae S4C yn croesawu ac yn annog ceisiadau gan grwpiau o bobl allai fod wedi'u tangynrychioli, gan gynnwys merched, pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a phobl ag anableddau. Mae egwyddorion cystadleuaeth agored a theg ar waith a bydd penodiadau'n cael eu gwneud yn ôl teilyngdod.

hyderus o ran anabledd CYFLOGWR